ANSAWDD ASESU ATHRAWON A'R DEUNYDDIAU A DDEFNYDDIR I GEFNOGI ASESU (ERS DILEU PROFION CYFNOD ALLWEDDOL 1)

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
www.estyn.gov.uk

CYNNWYS **TUDALEN**

1. Cyflwyniad **4**

2. Prif ganfyddiadau **5**

3. Argymhellion **8**

4. Y sefyllfa gyfredol mewn ysgolion:
4.1 Cefndir **8**
4.2 Manteision dileu'r tasgau a'r profion **10**
4.3 Y cysylltiad rhwng asesu athrawon ac addysgu a dysgu **10**
4.4 Safoni gwaith disgyblion **12**
4.5 Portffolios o waith wedi'i asesu **14**
4.6 Cynhaliaeth gan AALlau ar gyfer asesu **15**
4.7 Sut y gellid gwella asesu gan athrawon – barn ysgolion **16**

5. Y sefyllfa gyfredol mewn awdurdodau addysg lleol:
5.1 Cefndir **17**
5.2 Strategaethau a chyfleoedd ar gyfer safoni rhwng ysgolion **18**
5.3 Cynhaliaeth ar gyfer datblygu portffolios pwnc **18**
5.4 Hyfforddiant asesu **19**
5.5 Prosesau sicrhau ansawdd **20**
5.6 Sut y gellid gwella asesu gan athrawon – barn AALlau **21**

6. Defnyddio deunyddiau i gefnogi asesu **22**

1. Cyflwyniad

1.1 Mae tasgau a phrofion statudol yng nghyfnod allweddol wedi bod yn rhan o'r tirlun addysgol am fwy na degawd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, gweinyddwyd tasgau a phrofion i ddisgyblion blwyddyn 2, gydag athrawon hefyd yn cwblhau eu hasesiadau athro eu hunain o gynnydd disgyblion. Roedd asesiadau athrawon yn gydradd o ran parch â'r tasgau a'r profion o'r cychwyn, er bod rhai profion bob amser yn cael eu hystyried yn bwysicach. Dros gyfnod, lleihawyd pwysigrwydd asesiadau athrawon gyda'r ffocws yn gadarn ar ddiwedd y profion cyfnod allweddol.

1.2 Ar 1 Tachwedd 2001, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes na fyddai unrhyw dasgau neu brofion statudol yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 1 yn 2002 nac yn y dyfodol. Roedd y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad yn cynnwys:

- dibynadwyedd uchel barnau asesiadau athrawon;
- 'gorbaratoi' disgyblion ar gyfer y tasgau a'r profion a'r amser a dreuliwyd ar hyn o ganlyniad;
- rhyddhau amser yn ddiweddarach y gellir ei gyfeirio at weithgareddau dosbarth mwy cynhyrchiol;
- nod i leihau'r baich biwrocrataidd ar athrawon ysgolion cynradd; a'r
- canfyddiad na ddarparodd y tasgau a'r profion unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r wybodaeth honno a oedd yn deillio o asesiadau'r athrawon eu hunain o gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

1.3 Ar hyn o bryd, defnyddir asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 1 ar gyfer ystod eang o ddibenion. Fodd bynnag, mae cywirdeb a chysondeb yr asesiadau hyn yn hanfodol i'r wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu yn cael ei defnyddio'n effeithiol.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio arfer dda mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau addysgol. Mae'n tynnu ar:

- adroddiadau arolygiadau ysgol;
- trafodaethau â phenaethiaid a staff addysgu; ac
- ymweliadau a wnaed gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ag ystod o ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALlau).

1.5 Casglwyd gwybodaeth am asesu yng nghyfnod allweddol 1 o bob AALl yng Nghymru trwy:

- ymweld ag ysgol yn yr AALl;

- casglu gwybodaeth fanwl gan yr AALl ei hun; neu, mewn rhai achosion,

- cyfuniad o'r ddwy broses.

Ymwelwyd â 24 o ysgolion mewn 16 AALl gwahanol. Yn ogystal, cafwyd gwybodaeth fanwl gan un ar ddeg AALl.

1.6 Mae'r adroddiad yn disgrifio'r sefyllfa mewn **ysgolion**, gan gynnwys:

- y sefyllfa bresennol mewn ysgolion gyda disgyblion cyfnod allweddol 1;

- manteision canolbwyntio ar asesiadau athrawon;

- safoni gwaith disgyblion; a

- datblygiad portffolios o waith wedi'i asesu.

1.7 Cyfeiria'r adroddiad hefyd at waith **AALlau** wrth gefnogi asesu yng nghyfnod allweddol 1, ac mae'n disgrifio:

- y sefyllfa bresennol mewn AALlau;

- strategaethau AALlau ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau athrawon gan gynnwys cyfleoedd a ddarperir ar gyfer safoni rhwng ysgolion a rhwng AALlau;

- cynhaliaeth AALlau ar gyfer datblygu portffolios pwnc sy'n amlygu'r cyflawniad a ddisgwylir ar wahanol lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol; a

- hyfforddiant ar gyfer asesu.

1.8 Yn olaf, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y defnydd a wna ysgolion o ystod o ddeunyddiau i gefnogi asesu. Mae'r adran hon yn cyfeirio'n bwysig at y gynhaliaeth a ddarperir gan ddeunyddiau ACCAC.

2. Prif ganfyddiadau'r adroddiad:

2.1 Mae'r rhan fwyaf o athrawon cyfnod allweddol 1, ac yn enwedig y rheiny ym mlwyddyn 2, wedi croesawu dileu'r tasgau a'r profion. Mae'r athrawon yn nodi bod hyn yn rhoi mwy o amser iddynt, ac felly mwy o hyblygrwydd i sicrhau ehangder o ran darpariaeth y cwricwlwm. Maent hefyd yn teimlo'u bod yn cael mwy o gyfleoedd i wneud asesiadau mwy cywir a dibynadwy o ddisgyblion trwy wneud mwy o ddefnydd o asesu parhaus trwy gydol eu rhaglenni addysgu.

2.2 Mae rhai o'r AALlau y gwnaed arolwg ohonynt yn nodi y gallant weld manteision y trefniadau asesu newydd mewn ysgolion yn barod. Maent yn cyfeirio at groesawu'r cam a gymerwyd i ddileu dwy nodwedd:

- y gorbwyslais ar yr amser a dreuliwyd ar y pynciau craidd ar draul pynciau sylfaen eraill nad ydynt yn bynciau craidd; a

- threulio gormod o amser ar asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.

2.3 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi integreiddio asesu yn effeithiol i'r broses addysgu a dysgu. Maent wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud hyn trwy ddatblygu systemau ymarferol y gellir eu rheoli ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau disgyblion.

2.4 Mae ansawdd asesiadau athrawon, ar y cyfan, yn gywir. Fodd bynnag, mae'r ysgolion yn dibynnu fwyfwy ar brofiadau asesu eu hathrawon yn y gorffennol. Mae cywirdeb asesu mewn nifer fach o ysgolion yn anfoddhaol. Rhaid cael cysondeb yn ansawdd yr asesiadau a wneir gan wahanol athrawon ac mewn gwahanol ysgolion i sicrhau bod asesiadau athrawon yn ddibynadwy.

2.5 Mae athrawon yn cydnabod bod strategaeth sydd wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer safoni gwaith disgyblion yn eu galluogi i fod yn hyderus o ran cywirdeb a chysondeb eu hasesiadau yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

2.6 Cymerodd pob ysgol yr ymwelwyd â hwy ran mewn sesiynau safoni. Fodd bynnag, roedd amlder sesiynau safoni yn amrywio'n sylweddol o unwaith y mis i unwaith y flwyddyn. Ym mhob ysgol y gwnaed arolwg ohonynt, mae pob athro wedi'u cynnwys yn y broses safoni. Mewn nifer fach o ysgolion, mae cynorthwywyr cefnogi dysgu hefyd yn cymryd rhan.

2.7 Yn gyffredinol, mae ffocws y gweithgareddau safoni mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mewn nifer fach o ysgolion, mae athrawon hefyd yn trafod gwaith mewn gwyddoniaeth a phynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol nad ydynt yn bynciau craidd.

2.8 Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan fwyafrif yr ysgolion bortffolios o waith disgyblion wedi'i asesu, sy'n adlewyrchu ystod lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n briodol i'r cyfnod allweddol. Fel arfer, caiff y portffolios hyn eu rhoi at ei gilydd yn dilyn trafodaeth a chytuno rhwng athrawon yn ystod gweithgareddau safoni.

2.9 Mae ysgolion yn dibynnu ar AALlau i roi cynhaliaeth iddynt, ond mae maint y gynhaliaeth yn amrywio, yn enwedig mewn perthynas â:

- chyfleoedd ar gyfer safoni rhwng ysgolion;

- hyfforddiant ar gyfer asesu sy'n cadarnhau safonau;

- gwirio allanol y lefelau a ddyfernir i waith disgyblion; a

- dadansoddiad o'r wybodaeth asesu.

2.10 Ychydig o gyfleoedd sy'n cael eu darparu gan AALlau ar gyfer safoni rhwng ysgolion. Adroddodd fwyafrif yr ysgolion nad oeddent wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni gydag ysgolion eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mewn nifer fach o ysgolion, mae'r gweithgareddau safoni yn cynnwys athrawon o nifer o ysgolion lleol yn dod at ei gilydd i rannu barnau am Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fel arfer, mae'r athrawon hyn i gyd yn gweithio yng nghyfnod allweddol 1, ond mewn rhai achosion, mae athrawon o gyfnod allweddol 2 hefyd yn cymryd rhan yn y broses.

2.11 Mewn nifer fach o AALlau, cynhelir gweithgareddau safoni bob blwyddyn ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac maent yn cynnwys holl athrawon blwyddyn 2. Ni wnaeth yr un o'r AALlau y gwnaed arolwg ohonynt gymryd rhan mewn gweithgareddau safoni gyda AALlau eraill ledled Cymru.

2.12 Mae nifer o AALlau yn darparu hyfforddiant i athrawon i gefnogi asesiadau athrawon, yn benodol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mewn rhai AALlau, mae ystod yr hyfforddiant asesu ar gyfer athrawon cyfnod allweddol 1 yn gyfyngedig iawn. Yn yr AALlau hyn, nid yw athrawon cyfnod allweddol 1 yn diweddaru eu medrau asesu generig ac nid ydynt yn trafod materion asesu gydag athrawon o ysgolion eraill.

2.13 Dim ond ychydig o AALlau sydd â strategaethau manwl i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon ar draws eu hysgolion. Mae nifer fach o AALlau wedi llunio portffolios o waith wedi'i asesu. Mae'r AALlau hyn wedi cynnwys athrawon wrth baratoi portffolios a bu'r trafodaethau yn canolbwyntio ar lefelu'r gwaith yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

2.14 Mae'r gostyngiad yn yr ymweliadau sicrhau ansawdd ag ysgolion, ynghyd â llai o safoni mewn ysgolion a gostyngiad yn y rhaglen hyfforddiant asesu, yn golygu bod athrawon yn llai sicr ynglŷn â gwneud barnau cywir yn seiliedig ar feini prawf cyffredinol y disgrifiadau lefel.

2.15 Mae mwyafrif yr AALlau yn rhoi dadansoddiad effeithiol i ysgolion o wybodaeth asesu, yn enwedig ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mewn AALlau lle mae'r dadansoddiad hwn yn effeithiol iawn, mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n caniatáu i ysgolion asesu eu cynnydd dros gyfnod a chymharu eu perfformiad eu hunain â pherfformiad ysgolion tebyg.

2.16 Mae rhai athrawon yn ansicr am y barnau a wnânt ac yn defnyddio asesiadau sydd wedi'u cynhyrchu'n fasnachol. Mae bron pob ysgol bellach yn defnyddio profion wedi'u safoni mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 1. Mewn rhai ysgolion, mae maint y deunyddiau asesu a ddefnyddir

wedi cynyddu. Yn yr ysgolion hyn, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y llwyth gwaith.

2.17 Mae gan ACCAC rôl ganolog yng Nghymru wrth helpu sicrhau bod asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 1 yn gywir ac yn gyson. Roedd pob ysgol y gwnaed arolwg ohonynt yn defnyddio deunyddiau ACCAC i gefnogi eu barnau am gynnydd disgyblion yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

3. Argymhellion

Os yw hyder athrawon yn ansawdd y system asesu yng nghyfnod allweddol 1 am gael ei gynnal, mae Estyn yn argymell bod AALlau, ACCAC, ysgolion a, lle y bo'n briodol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau bod:

3.1 athrawon newydd yn cael digon o gyfleoedd yn eu rhaglenni hyfforddiant cychwynnol a'r rhaglenni sefydlu ysgol fel bod ganddynt syniad clir am gyflawniadau disgyblion mewn perthynas â lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

3.2 gan bob ysgol fynediad i ystod briodol o gyrsiau hyfforddiant mewn swydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon am fedrau asesu, a chyllid digonol ar eu cyfer;

3.3 cynnydd mewn cyfleoedd i athrawon safoni gwaith disgyblion gan gynnwys mewn ysgolion unigol, rhwng ysgolion a sectorau a rhwng AALlau;

3.4 ansawdd a chysondeb asesiadau athrawon yn cael eu sicrhau trwy system allanol sy'n cynnwys ymweliadau ag ysgolion a sgyrsiau proffesiynol ag athrawon am waith disgyblion a'r lefelau a ddyfernir;

3.5 arian ar gael i AALlau sicrhau ansawdd asesiadau athrawon bob blwyddyn ym mhob ysgol cyfnod allweddol 1; a

3.6 deunyddiau enghreifftio pellach a dewisol yn cael eu darparu gan ACCAC.

4. Y sefyllfa gyfredol mewn ysgolion

4.1 Cefndir

4.1.1 Y gofyniad cyfredol yng nghyfnod allweddol 1 yw i athrawon asesu'r lefel a gyrhaeddir gan bob disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth trwy asesiadau athrawon.

4.1.2 Ar hyn o bryd, defnyddir gwybodaeth asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 1 ar gyfer ystod eang o ddibenion:

- darparu gwybodaeth **gyfansymiol** mewn perthynas ag unigolion, grwpiau a dosbarthiadau ar adegau penodedig er mwyn llywio'r broses o gynllunio a gosod targedau yn yr ysgol a'r awdurdod addysg lleol;

- hysbysu athrawon am **gynnydd** disgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol;

- darparu rhywfaint o wybodaeth **ddiagnostig** o flwyddyn i flwyddyn am y cynnydd a wna disgyblion, dosbarthiadau, ysgolion ac AALlau;

- nodi **safonau** ar lefel genedlaethol, awdurdod addysg lleol ac ysgol bob blwyddyn;

- darparu **atebolrwydd cyhoeddus** ar lefel ysgol, AALl a llywodraeth;

- darparu **gwybodaeth gymharol** i rieni am ysgolion mewn ardal i lywio dewisiadau;

- darparu **gwybodaeth benodol** i rieni am berfformiad eu plentyn eu hunain;

- darparu **gwybodaeth gyhoeddus** am y perfformiad mewn ysgol neu ardal benodol; a

- darparu **gwybodaeth pontio** i sectorau eraill am y cynnydd a wna disgyblion yng nghyfnod allweddol 1.

4.1.3 Wrth lunio barnau ar gynnydd disgyblion trwy gydol y cyfnod allweddol neu ar ei ddiwedd, mae angen i athrawon fod yn gywir a chyson. Mae hyn yn hanfodol i'r wybodaeth a gynhyrchir yn cael ei defnyddio'n effeithiol.

4.1.4 Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae mwyafrif yr athrawon yn llunio barnau am gynnydd disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol y cyfnod allweddol, a defnyddiant hon i lunio barn gyfansymiol. Mae'r wybodaeth dda sydd gan athrawon am ddisgyblion cyfnod allweddol 1, ynghyd ag asesu parhaus, yn galluogi athrawon i ddarparu manylion cynhwysfawr am gynnydd disgyblion.

4.1.5 Mae rhai athrawon yn ystyried o hyd bod asesu'n cael ei lywio'n ormodol gan ddiwedd proses gyfansymiol cyfnod allweddol 1. Mae'r athrawon hyn yn teimlo bod asesu yn bennaf yn ymwneud â:

- rhoi lefel Cwricwlwm Cenedlaethol yn y pynciau craidd;

- mesur safonau; a

- chasglu data.

Maent yn gweld bod yr agweddau ffurfiannol ar asesiadau athrawon, gan gynnwys nodi cryfderau a gwendidau disgyblion mewn ffordd barhaus ac addasu dysgu yng ngoleuni hyn, yn llai arwyddocaol.

4.2 Manteision dileu'r tasgau a'r profion

4.2.1 Mae mwyafrif athrawon cyfnod allweddol 1, ac yn enwedig y rheiny ym mlwyddyn 2, wedi croesawu dileu'r tasgau a'r profion. Maent yn nodi bod dileu'r tasgau a'r profion wedi rhoi:

- mwy o hyblygrwydd iddynt sicrhau ehangder o ran darpariaeth y cwricwlwm, er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, treuliwyd y rhan fwyaf o dymor y gwanwyn yn atgyfnerthu gwaith i fod yn barod ar gyfer y profion;

- cyfleoedd iddynt asesu disgyblion yn fwy cywir trwy wneud mwy o ddefnydd o asesu parhaus gydol eu rhaglenni addysgu;

- cyfleoedd iddynt lywio eu haddysgu gan newidiadau a wneir yng ngoleuni'r wybodaeth hon;

- ffocws wedi'i adnewyddu ar asesu trwy gydol y cyfnod allweddol ac nid ar y diwedd yn unig; a

- dileu'r pwysau ar rai ysgolion, athrawon a disgyblion yn sgil disgwyliadau mawr y llywodraeth, AALlau, rheolwyr a rhieni, lle'r oedd y tasgau a'r profion dan sylw.

4.2.2 Mewn rhai ysgolion, fodd bynnag, mynegodd athrawon rai amheuon ynghylch dileu'r tasgau a'r profion am eu bod yn aml yn defnyddio'r profion ffurfiol i gadarnhau cywirdeb eu hasesiadau athrawon eu hunain.

4.2.3 Mae mwyafrif yr athrawon yn cydnabod manteision sylweddol asesiadau athrawon, yn hytrach na thasgau a phrofion, oherwydd y gallant:

- eu defnyddio i gynnwys ystod lawn rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

- cynnwys ystod ehangach o gyfleoedd asesu;

- eu hintegreiddio'n effeithiol i'r broses addysgu a dysgu;

- eu defnyddio mewn modd ffurfiannol, ac yn nid yn unig mewn modd cyfansymiol; a'u

- seilio ar arsylwadau a thrafodaethau â disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau dosbarth.

4.3 Y cysylltiad rhwng asesiadau athrawon ac addysgu a dysgu

4.3.1 Teimla mwyafrif yr athrawon eu bod wedi integreiddio asesu yn effeithiol i'r broses addysgu a dysgu. Mae nifer o ysgolion wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud hyn trwy:

- ddatblygu systemau ymarferol y gellir eu rheoli ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau disgyblion;

- cynllunio cyfleoedd ar gyfer asesu yn seiliedig ar amcanion dysgu clir;

- cydnabod nad oes angen i'r holl ddysgu gael ei asesu'n ffurfiol;

- gwneud asesiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion trwy gydol y cyfnod allweddol yn y pynciau craidd. Caiff yr asesiadau eu ffurfio ar sail cwestiynau, arsylwi a marcio ansawdd da sy'n rhoi gwybodaeth i ddisgyblion am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith;

- olrhain cynnydd disgyblion trwy gydol yr ysgol;

- gosod targedau heriol ar gyfer gwella i bob disgybl, fel arfer mewn Saesneg a mathemateg, a nodi'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Yn yr arfer orau, caiff disgyblion eu hannog i helpu gosod eu targedau eu hunain, a chaiff y targedau eu cyfleu i'r rhieni;

- darparu cyfleoedd i athrawon gyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ac addasu gwaith disgyblion yng ngoleuni'r wybodaeth asesu a gesglir;

- cael syniad clir am safonau a disgwyliadau disgyblion yn briodol i'w hoedran a disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol;

- gwneud asesiadau sy'n gyson gywir a dibynadwy o gyflawniadau disgyblion;

- arweinwyr pwnc yn helpu athrawon i lunio portffolios wedi'u safoni o waith disgyblion yn y pynciau craidd ac weithiau yn y pynciau sylfaen nad ydynt yn bynciau craidd yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

- defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i lywio'r cynllunio ar gyfer dysgu disgyblion yn y dyfodol, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg; a

- dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu i:

    - arfarnu'r safonau cyflawniad cyffredinol yn yr ysgol;

- mesur perfformiad yr ysgol yn erbyn y perfformiad gorau; a'u
- cymharu eu hunain ag ysgolion tebyg.

4.4 Safoni gwaith disgyblion

4.4.1 Mae pob athro yn cydnabod y bydd asesu'n fwy effeithiol a chywir os yw'n:

- meddu ar ddealltwriaeth glir o ddisgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol a sut i'w gweithredu yn ymarferol; ac yn
- barnu gwaith disgyblion mewn ffordd gyson, gyda chyd-ddealltwriaeth am safonau. Byddai angen datblygu'r barnau hyn trwy broses reolaidd o gyfarfodydd a thrafodaethau a thrwy gyfeirio at ddeunyddiau enghreifftio.

4.4.2 Mae athrawon hefyd yn cydnabod y byddai strategaeth sydd wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer safoni gwaith disgyblion yn eu helpu i fod yn hyderus am gywirdeb a chysondeb eu hasesiadau. Maent yn teimlo y dylai safoni fod yn rhan hanfodol o ddatblygiad y cwricwlwm o fewn ysgolion a rhyngddynt.

4.4.3 Mae trafodaethau safoni yn helpu athrawon i ddyfarnu lefelau yn unol â disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r disgrifiadau lefel yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl, bydd athrawon yn barnu pa ddisgrifiad sy'n cydweddu orau â pherfformiad disgybl yn gyffredinol, a bydd yn ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer lefelau cyfagos.

4.4.4 Mae arfer dda mewn ysgolion yn y broses safoni yn cynnwys:

- cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith disgyblion;
- cymharu cyrhaeddiad disgyblion â meini prawf disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- dyrannu lefelau i waith disgyblion a phenderfynu pam y mae gwaith yn cydweddu orau â lefel benodol; a
- chyfarfod cydweithwyr o sectorau eraill i ystyried a chytuno ar y barnau a wnaed.

4.4.5 Mewn un ysgol, gwnaed nodiadau ar waith disgyblion ac fe'i ystyriwyd mewn un o 3 chategori – da, cymedrol neu'n is na chymedrol – ond nid oedd y gwaith wedi'i lefelu yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gwerth y broses yn gyfyngedig.

4.4.6 Yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, roedd amlder y sesiynau safoni yn amrywio'n sylweddol. Cymerodd bob ysgol ran mewn rhai sesiynau

safoni. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, roedd hyn yn digwydd unwaith y flwyddyn yn unig, tra mewn ysgolion eraill, roedd y broses yn cael ei chynnal yn amlach o lawer. Mewn un ysgol, cynhaliwyd trafodaethau am waith disgyblion bob mis mewn cyfarfodydd staff. Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio cyfuniad o gyfarfodydd staff ac amser hyfforddiant yn yr ysgol ar gyfer y broses safoni.

4.4.7 Ym mhob ysgol y gwnaed arolwg ohonynt, mae'r holl athrawon wedi'u cynnwys yn y broses safoni. Mewn nifer fach o ysgolion, caiff cynorthwywyr cefnogi dysgu eu cynnwys hefyd.

Astudiaeth achos 1 – cynnwys yr holl staff mewn asesu

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y modd y mae'r holl staff wedi'u cynnwys yn y broses asesu fel bod yr asesiadau a wneir yn gywir ac yn gyson.

Mae ysgol fabanod yn cynnwys yr holl staff yn y broses asesu i sicrhau bod yr asesiadau a wneir yn gywir ac yn gyson â meini prawf y Cwricwlwm Cenedlaethol

Croesawyd dileu'r profion a'r tasgau gan athrawon yn yr ysgol. Fodd bynnag, er bod gan yr ysgol athrawon profiadol sydd â dealltwriaeth gadarn o lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r meini prawf sy'n gysylltiedig â hwy, roedd y newidiadau i'r staff yn golygu bod rhai o'r staff yn ansicr ynglŷn â dyrannu lefelau i waith disgyblion.

O gofio hyn, cynlluniodd yr ysgol i sicrhau bod gan yr holl staff gyd-ddealltwriaeth o lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r ysgol yn teimlo bod hyn yn bwysig, nid yn unig ar ddiwedd y cyfnod allweddol, ond trwy gydol y cyfnod allweddol. Cred yr ysgol fod y modd y mae'n olrhain cynnydd disgyblion yn gywir a gosod targedau yn effeithiol yn ddibynnol ar fod y staff yn glir ynghylch yr hyn y mae'r lefelau yn ei olygu.

Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff cefnogi sy'n helpu cefnogi dysgu disgyblion, wedi'u cynnwys mewn sesiynau safoni ddwywaith y tymor. Yn y cyfarfodydd hyn, trafodir gwaith disgyblion a dyfernir lefelau i'r gwaith yng ngoleuni'r meini prawf a gynhwysir yn nisgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yna, mae arweinwyr pwnc yn cadw'r gwaith hwn sydd wedi'i lefelu mewn portffolios pwnc.

Mae gan yr ysgol bortffolios o waith wedi'i asesu ym mhob un o bynciau craidd a phynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol nad ydynt yn bynciau craidd. Mae'r rhain ar gael fel dogfennau cyfeirio i'r staff, ac maent yn rhoi dehongliad clir o farn gytûn yr ysgol am y lefelau.

Mae'r ysgol fabanod hefyd wedi cynnwys ei hysgol bartner iau yn y broses hon. Trwy wneud hyn, mae'r ysgol yn hyderus bod yr holl staff yn deall y lefelau y mae'n eu dyfarnu i waith disgyblion yn glir a bod staff cyfnod allweddol 2 yn cytuno ar y lefelau hyn hefyd.

4.4.8 Mae ffocws gweithgareddau safoni fel arfer yn cynnwys gwaith mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae nifer fach o ysgolion hefyd yn trafod gwaith mewn gwyddoniaeth a phynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol nad yn ydynt yn bynciau craidd.

4.4.9 Mewn nifer fach o achosion, mae gweithgareddau safoni yn cynnwys athrawon o nifer o ysgolion lleol yn dod at ei gilydd i rannu barnau. Fel arfer, mae'r athrawon hyn i gyd yn gweithio yng nghyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae athrawon o gyfnod allweddol 2 hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd.

Astudiaeth achos 2 – ffocws ar safoni

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos y modd y mae un ysgol yn sicrhau bod yr asesiadau a wnânt yn gywir ac yn gyson â'r safonau allanol.

Mewn ysgol fabanod fawr, ceir strategaethau da i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon a wneir ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.

Mae'r asesu wedi'i gynllunio'n dda, ac mae pob athro yn yr ysgol yn chwarae rhan yn yr asesiadau parhaus a wneir ar bob disgybl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Caiff yr holl staff hyfforddiant mewnol gan y cydlynydd asesu ac athro blwyddyn 2 yn yr ysgol. Maent yn cyfarfod bob tymor i drafod asesu gwaith disgyblion ac i benderfynu ar lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol y mae'r gwaith yn ei amlygu. Caiff rhai enghreifftiau o waith eu cadw a'u cynnwys mewn portffolio tystiolaeth y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio i ddangos gwaith disgyblion ar wahanol lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae gan yr ysgol enghreifftiau o waith disgyblion yn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob pwnc craidd, a defnyddir y rhain fel canllawiau i athrawon pan fydd asesiadau athrawon yn cael eu cwblhau.

Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio deunyddiau asesu dewisol a luniwyd gan ACCAC. Defnyddir y deunyddiau hyn yn effeithiol i gefnogi asesiadau athrawon. Mae disgyblion ac athrawon yn hoffi'r deunyddiau, ac mae eu defnyddio yn rhoi hyder i athrawon yn y barnau a wnânt.

Trwy amrywiaeth o brosesau, mae'r ysgol yn hyderus bod gwaith disgyblion yn cael ei lefelu'n gywir a bod y lefelau'n gyson â'r safonau allanol a amlygir gan ACCAC.

4.5 Portffolios o waith wedi'i asesu

4.5.1 Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bortffolios o waith disgyblion wedi'i asesu sy'n adlewyrchu ystod lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n briodol i'r cyfnod allweddol. Fel arfer, caiff y portffolios hyn eu rhoi at ei gilydd yn dilyn cytundeb rhwng athrawon yn ystod gweithgareddau safoni.

4.5.2 Mae'r portffolios hyn fel arfer yn cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae pob athro wedi trafod y gwaith, mae'r lefelau wedi'u cytuno, ac fel arfer caiff samplau o waith â nodiadau ar ystod o lefelau eu cynnwys. Mae nodiadau defnyddiol yn cyfeirio at nodweddion y gwaith sy'n ei roi ar lefel benodol, ac os yw'n briodol, yn rhestru'n fanwl y rhesymau pam nad yw'r gwaith yn cael ei roi ar lefelau cyfagos.

4.5.3 Mewn rhai ysgolion, dim ond yn ddiweddar y mae athrawon wedi dechrau rhoi portffolios o waith disgyblion wedi'i asesu at ei gilydd yn y pynciau craidd, ac i'w defnyddio i lywio disgwyliadau athrawon o ran safonau mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mewn ysgolion eraill, er bod arweinwyr pwnc wedi rhoi portffolios o waith disgyblion at ei gilydd sy'n amlygu'r gwahanol lefelau, am nad yw'r athrawon wedi trafod y rhain, mae eu gwerth yn gyfyngedig wrth sicrhau cywirdeb a chysondeb asesu.

4.5.4 Mewn nifer fach o ysgolion, mae portffolios o waith wedi'i asesu ar gael ym mhob un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r pynciau sylfaen nad ydynt yn bynciau craidd.

4.6 Cynhaliaeth gan AALlau ar gyfer asesu

4.6.1 Mae maint y gynhaliaeth a ddarperir i ysgolion ar gyfer asesu yng nghyfnod allweddol 1 yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae ysgolion yn dibynnu ar AALlau i roi cynhaliaeth asesu iddynt mewn pedwar maes allweddol:

- cyfleoedd ar gyfer safoni rhwng ysgolion;
- hyfforddiant ar gyfer asesu;
- gwirio allanol y lefelau y maent yn eu dyfarnu i waith disgyblion; a
- dadansoddi gwybodaeth asesu.

4.6.2 Ychydig iawn o gyfleoedd sy'n cael eu darparu gan AALlau ar gyfer safoni rhwng ysgolion. Mae AALlau yn cydnabod bod athrawon yn elwa ar drafodaethau ansawdd da yn seiliedig ar asesiadau athrawon. Fodd bynnag, o fewn y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon, ni roddwyd llawer o flaenoriaeth i'r gweithgaredd hwn. Adroddodd ran fwyaf yr ysgolion nad oeddent wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni gydag ysgolion eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn nifer fach o AALlau, mae rhywfaint o drafod gwaith disgyblion mewn Saesneg yn

nodwedd ar weithgareddau datblygu staff a gynhelir gan athrawon ymgynghorol.

4.6.3 Mae pob AALl yn cynnig rhyw fath o hyfforddiant ar gyfer athrawon cyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, mae ystod yr hyfforddiant a ddarperir yn amrywio'n sylweddol.

4.6.4 Mae ysgolion yn dibynnu'n fawr ar AALlau i sicrhau ansawdd y gwaith a wnânt. Yn y gorffennol, mae athrawon wedi sicrhau bod eu hasesiadau'n cael eu harchwilio ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Ymwelodd safonwyr archwilio o'r AALl ag ysgolion i sicrhau bod y barnau a luniwyd am gyraeddiadau disgyblion yn gywir ac yn gyson â disgwyliadau cenedlaethol. Roedd gan bob AALl raglen wedi'i chynllunio o ymweliadau â phob ysgol fabanod, ysgol gynradd ac ysgol arbennig sydd â disgyblion cyfnod allweddol 1. Ers dileu'r tasgau a'r profion, mae'r rhaglen sicrhau ansawdd hon ar gyfer ysgolion wedi dod yn afreolaidd, ac mae mwyafrif yr ysgolion yn nodi bod yr asesiadau y maent yn eu gwneud yn awr heb eu gwirio. Dibynnodd nifer o ysgolion ar y tasgau a'r profion i gadarnhau lefelau asesiadau athrawon. Bellach, mae athrawon yn teimlo, ar adeg y mae arnynt angen fwy o gynhaliaeth gan AALlau i sicrhau ansawdd eu hasesiadau, bod llai o gynhaliaeth ar gael mewn gwirionedd.

4.6.5 Mae mwyafrif yr AALlau yn rhoi dadansoddiad effeithiol o wybodaeth asesu i ysgolion. Mewn rhai AALlau, mae'r dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn hynod fanwl. Mewn AALlau lle mae'r dadansoddiad yn effeithiol iawn, mae'n cynnwys cymhariaeth:

- yn ôl pwnc;
- yn ôl rhyw;
- gydag ysgolion tebyg yn yr AALl;
- gydag ystadegau cenedlaethol;
- gyda thargedau'r ysgol ei hun ar gyfer gwella; a
- chynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

4.6.6 Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymgynghorydd yn cyfarfod y llywodraethwyr bob blwyddyn i adolygu cynnydd yr ysgol. Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys dadansoddiad o data'r ysgol a'r hyn y mae'r data hwn yn ei ddangos am dueddiadau dros gyfnod a pha mor dda y mae'r ysgol yn gwneud o gymharu ag ysgolion eraill tebyg.

4.7 Sut y gellid gwella asesu gan athrawon – barn ysgolion

4.7.1 Gwnaeth pob ysgol awgrymiadau am y modd y gellid gwella'r broses asesiadau athrawon yn eu barn hwy. Er bod mwyafrif yr ysgolion yn teimlo bod yr asesiadau y maent yn eu gwneud ar hyn o bryd yn gywir, mynegodd

nifer ohonynt bryder am yr angen i gynnal ansawdd, cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon yn y tymor hir. Gallai'r mesurau i sicrhau hyn gynnwys:

- mwy o safoni yn yr ysgol i sicrhau bod yr holl athrawon yn dyfarnu lefelau'n gywir;

- cyfarfodydd safoni lle y gall staff o ystod wahanol o ysgolion gyfarfod i ystyried y lefelau a ddyfernir ar gyfer gwaith disgyblion. Gallai hyn arwain at lunio portffolios o waith wedi'i asesu o fewn clwstwr o ysgolion;

- gwirio'r lefelau a ddyfernir i ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn allanol. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i sicrhau bod athrawon a rhieni yn parhau i gael hyder yn y system asesu;

- ystod briodol o gyrsiau hyfforddiant mewn swydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon am fedrau asesu;

- deunyddiau enghreifftio pellach gan ACCAC sy'n ystyried math ac ystod y perfformiad y dylai'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol ei ddangos yn nodweddiadol. Nododd ysgolion fod angen cymorth penodol arnynt i ystyried gwaith disgyblion a oedd ar y trothwy rhwng dwy lefel; a

- mwy o ddeunyddiau asesu dewisol gan ACCAC. Teimlai athrawon fod y rhain yn rhoi canolbwynt i'r gwaith yng nghyfnod allweddol 1 ac yn rhoi hyder i athrawon ddyfarnu lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn briodol.

5. Y sefyllfa gyfredol mewn awdurdodau addysg lleol

5.1 Cefndir

5.1.1 Croesawodd y rhan fwyaf o AALlau y penderfyniad i ddileu'r tasgau a'r profion statudol yng nghyfnod allweddol 1. Maent yn ystyried hyn fel cam cadarnhaol gan fod mwy o bwyslais ar asesiadau'r athrawon eu hunain o gynnydd disgyblion. Maent yn teimlo bod y broses asesu bellach yn nwylo'r athrawon y bydd eu gwybodaeth am dechnegau asesu yn llywio'r addysgu a'r dysgu yn y dyfodol yn briodol.

5.1.2 Mae rhai AALlau yn nodi y gallant weld manteision y trefniadau newydd mewn ysgolion yn barod. Maent yn cyfeirio yn benodol at ddwy nodwedd anfoddhaol sy'n ymwneud â'r tasgau a'r profion sydd bellach wedi diflannu i raddau helaeth:

- y gorbwyslais ar y pynciau craidd ar draul y pynciau sylfaen eraill nad ydynt yn bynciau craidd; a

- threulio gormod o amser ar asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.

5.1.3 Er gwaethaf pryderon rhai athrawon, yn gyffredinol, mae AALlau yn teimlo bod yr athrawon yn eu hysgolion yn adennill hyder wrth asesu eu disgyblion. Am nifer o flynyddoedd, awgrymwyd mai tasgau a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn unig allai roi syniad cywir o alluoedd disgyblion, ac o ganlyniad, collodd athrawon hyder yn eu galluoedd asesu eu hunain. Ni allant bellach ddefnyddio tasgau a phrofion i gadarnhau eu canfyddiadau, ond maent yn defnyddio technegau asesu parhaus y gallant eu defnyddio i lywio dysgu'r disgyblion yn y dyfodol.

5.1.4 Mae rhai AALlau yn teimlo nad yw dileu'r tasgau a'r profion wedi arwain at newid gwirioneddol yng nghyfnod allweddol 1. Mae'r AALlau hyn yn teimlo bod effeithiau niweidiol profi disgyblion wedi'u gorbwysleisio. Fodd bynnag, er bod AALlau yn gyffredinol yn gweld bod gwerth cyfyngedig i'r tasgau a'r profion ar ddiwedd cyfnod allweddol, maent yn ystyried bod y data a gynhyrchwyd yn hynod ddefnyddiol iddynt ddarparu gwybodaeth feincnodi am berfformiad ysgolion.

5.1.5 Nododd nifer fach o AALlau fod dileu'r tasgau a'r profion wedi cael effaith niweidiol ar lwyth gwaith mewn rhai ysgolion. Mae rhai athrawon yn teimlo'n ansicr ynglŷn â'r barnau a wnânt, ac maent wedi troi at ddefnyddio ystod o asesiadau sydd wedi'u cynhyrchu'n fasnachol, gan gynnwys profion wedi'u safoni. Mewn rhai ysgolion, mae swm y deunyddiau asesu a ddefnyddir wedi cynyddu gyda chynnydd yn y llwyth gwaith o ganlyniad.

5.2 Strategaethau a chyfleoedd ar gyfer safoni rhwng ysgolion

5.2.1 Mae rhai AALlau yn rhoi ystod eang o gyfleoedd i athrawon safoni gwaith disgyblion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys athrawon ar draws AALl yn gweithio gyda'i gilydd i drafod a chytuno ar y lefelau a ddyfernir ar gyfer gwaith disgyblion.

5.2.2 Cynhaliodd pob AALl y mathau hyn o weithgareddau cyn dileu'r tasgau a'r profion. Roeddent yn cael eu hystyried yn ganolog i rôl sicrhau ansawdd yr AALl wrth wirio cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, darlun cymysg iawn yw'r darlun presennol. Ar hyn o bryd, nid yw rhai AALlau yn trefnu unrhyw fath o weithgareddau safoni ar gyfer athrawon. Serch hynny, mewn AALlau eraill, cynhelir y broses hon bob blwyddyn ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda phob athro cyfnod allweddol 2. Mae nifer o AALlau yn cynnwys mwy nag un person o bob ysgol mewn gweithgareddau safoni sy'n cael eu trefnu'n ganolog, ond mewn AALlau eraill, mae nifer yr athrawon sydd wedi'u cynnwys yn gyfyngedig iawn.

5.2.3 Er bod rhywfaint o gyfnewid barnau athrawon rhwng grwpiau clwstwr o ysgolion, nid oedd yr un o'r AALlau y gwnaed arolwg ohonynt yn cymryd rhan yn benodol mewn gweithgareddau safoni rhyng-AALl.

5.3 Cynhaliaeth ar gyfer datblygu portffolios pwnc

5.3.1 Gall AALlau gefnogi asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 trwy lunio portffolios o waith y disgyblion sydd wedi'i asesu. Gall y rhain roi enghreifftiau i athrawon o waith disgyblion ar draws yr AALl sydd wedi'i lefelu yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Weithiau, mae'r portffolios hyn ar gael ar wefannau AALlau, a gallant helpu athrawon i 'feincnodi' gwaith eu disgyblion eu hunain yn erbyn deunydd enghreifftio y cytunwyd arno ar lefel AALl.

5.3.2 Mae nifer fach o AALlau wedi llunio portffolios o waith mewn Saesneg a mathemateg ac wedi cynnwys athrawon yn y gwaith. Mewn un AALl, maent ar hyn o bryd yn datblygu portffolio ar gyfer ysgrifennu ac maent yn defnyddio athrawon i ddod ag enghreifftiau o ysgrifennu disgyblion o'u hysgolion eu hunain at ei gilydd. Bydd y portffolio yn cynnwys enghreifftiau o ysgrifennu disgyblion ar wahanol lefelau ac yn dangos cynnydd o'r Blynyddoedd Cynnar i gyfnod allweddol 3.

5.3.3 Er nad yw rhai AALlau yn llunio portffolios penodol o waith wedi'i asesu, maent:

- yn annog ysgolion i lunio'u portffolios eu hunain;
- yn cynnig hyfforddiant ar gyfer datblygu portffolios yn seiliedig ar resymeg glir; ac
- yn rhoi cyngor ar reoli casgliad o waith disgyblion ar draws y cyfnod allweddol.

5.3.4 Mewn rhai AALlau, nid oes yna unrhyw weithgareddau yn canolbwyntio ar ddatblygu portffolios o waith wedi'i asesu yng nghyfnod allweddol 1. Mae AALlau yn nodi bod hyn oherwydd naill ai:

- nid oes ganddynt ddigon o staff â'r arbenigedd angenrheidiol i drefnu'r gweithgareddau hyn; neu
- yn eu rhaglenni hyfforddiant mewn swydd, nid yw ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i ryddhau athrawon i ganiatáu cynnal trafodaethau, sy'n canolbwyntio ar waith disgyblion.

5.4 Hyfforddiant asesu

5.4.1 Mae pob AALl yn cynnig rhyw fath o hyfforddiant i athrawon cyfnod allweddol 1, ond mae ystod yr hyfforddiant a ddarperir yn amrywio'n sylweddol.

5.4.2 Mewn AALlau sydd â'r ystod fwyaf o gyfleoedd hyfforddiant yng nghyfnod allweddol 1, ceir cyrsiau ar gyfer athrawon mewn:

- materion asesu generig, gan gynnwys marcio a hunanasesu disgyblion;

- defnyddio deunyddiau asesu dewisol wedi'u llunio gan ACCAC;

- arfer asesu, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg;

- dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu; a

- defnyddio asesu gwaelodlin yn y Blynyddoedd Cynnar.

Ceir cyrsiau hefyd ar gyfer cydlynwyr asesu newydd a chydlynwyr asesu presennol. Bob blwyddyn, mae nifer o AALlau yn rhoi hyfforddiant i athrawon wrth baratoi ar gyfer asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol.

5.4.3 Fodd bynnag, mewn rhai AALlau mae ystod yr hyfforddiant asesu ar gyfer athrawon cyfnod allweddol 1 yn gyfyngedig iawn. Yn yr AALlau hyn, nid yw athrawon cyfnod allweddol 1 yn diweddaru eu medrau asesu, ac nid ydynt yn trafod materion asesu gydag athrawon o ysgolion eraill.

5.4.4 Lle caiff rhaglenni hyfforddiant mewn swydd eu cynnig, mae AALlau yn adrodd bod nifer dda o athrawon yn manteisio ar yr hyfforddiant. Fodd bynnag, mae llai o athrawon profiadol blwyddyn 2 bellach yn mynychu digwyddiadau hyfforddi, ac ni cheir digon o gynrychiolaeth o flwyddyn 1 a'r dosbarth derbyn. Gallai hyn fod oherwydd bod ysgolion yn blaenoriaethu hyfforddiant i ddarparu ar gyfer y rheiny y maent yn ystyried sydd â'r angen mwyaf. O ganlyniad, mae nifer yr athrawon sy'n manteisio ar bob agwedd ar hyfforddiant asesu ar ei uchaf ymhlith athrawon dibrofiad blwyddyn 2 ac athrawon sydd newydd gymhwyso.

5.4.5 Ym mhob AALl, mae'r strategaeth hyfforddiant yn cael ei hariannu'n bennaf trwy raglen GCAH. Mae rhai AALlau yn cadw arian yn ganolog ar gyfer hyfforddiant asesu, tra bydd eraill yn trosglwyddo'r arian i ysgolion.

5.5 Prosesau sicrhau ansawdd

5.5.1 Ychydig iawn o AALlau sydd bellach â strategaethau i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesu athro ar draws eu hysgolion.

5.5.2 Cyn dileu'r tasgau a'r profion, archwiliodd AALlau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 ar draws eu hysgolion. Ymwelodd safonwyr archwilio o'r AALl ag ysgolion i sicrhau bod y barnau a wnaed am gyrhaeddiad disgyblion yn gywir ac yn gyson â'r disgwyliadau cenedlaethol.

5.5.3 Mae'r sefyllfa gyfredol mewn AALlau fel a ganlyn:

- nid yw rhai AALlau yn gwirio cywirdeb asesiadau athrawon yn eu hysgolion o gwbl;

- mae rhai AALlau yn ymweld â sampl o ysgolion i wirio asesiadau a thrafod materion â staff;

- nid yw rhai AALlau yn ymweld ag ysgolion, ond maent yn cynnal archwiliad post o'r asesu. Defnyddir archwilwyr/safonwyr profiadol i gadarnhau'r sampl y mae ysgolion yn ei chyflwyno drwy'r post.

Astudiaeth Achos 3 – sicrhau ansawdd mewn AALl

Dengys yr astudiaeth achos hon sut y bu i un AALl geisio sicrhau ansawdd asesu yng nghyfnod allweddol 1 trwy broses o ymweliadau a samplo gwaith disgyblion.

Yn ddiweddar, mae un AALl mawr yn ne ddwyrain Cymru wedi cynnal arolwg sicrhau ansawdd o asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 1. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â 15 ysgol gan yr athro ymgynghorol sy'n gyfrifol am asesu. Roedd pob ymweliad ag ysgol yn cynnwys ffocws yn seiliedig ar y 6 chwestiwn allweddol canlynol sy'n ymwneud â'r prosesau sy'n gysylltiedig â llunio barnau am lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a ddyfernir i ddisgyblion:

1. Pa dystiolaeth y mae'r athro wedi'i defnyddio i lunio barnau am lefel ar ddiwedd cyfnod allweddol?

2. A yw'r ysgol yn ysgol yn gwneud ei safoni ei hun yn y pynciau craidd?

3. A oes gan yr ysgol bortffolios ar gyfer y pynciau craidd?

4. A yw'r athro wedi mynychu unrhyw un o gyrsiau'r AALl ar safoni yng nghyfnod allweddol 1? Pryd?

5. A yw'r ysgol yn defnyddio'r deunyddiau asesu dewisol gan ACCAC? Os yw, sut? a'r hyn sydd bwysicaf

6. A yw'r barnau a wneir yn gywir o ran y disgrifwyr lefel ar gyfer y lefelau a ddyfernir?

Gofynnwyd i'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy anfon samplau o waith mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, at yr AALl i'w harchwilio. Archwiliwyd y samplau hyn gan staff yr AALl i sicrhau dilysrwydd y lefelau a ddyfarnwyd gan yr ysgolion. Cafodd canlyniadau'r broses sicrhau ansawdd hon eu hadrodd yn ôl i bob ysgol.

Roedd yr ysgolion yn ystyried yr arolwg sicrhau ansawdd yn ddefnyddiol iawn. Roedd canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau barnau neu'n nodi meysydd lle roedd angen gwelliannau. Roedd yr arolwg hefyd yn galluogi'r ysgolion a oedd wedi'u cynnwys i fod yn hyderus yn y barnau asesiadau athrawon yr oeddent yn eu llunio.

Roedd yr AALl yn ystyried yr arolwg yn ddefnyddiol, oherwydd cynorthwyodd iddynt adnabod cryfderau a gwendidau asesiadau athrawon ddwy flynedd ar ôl dileu tasgau a phrofion. Er bod yr arolwg yn cynnwys sampl weddol fach o ysgolion, mae meysydd asesu pwnc y mae angen eu gwella wedi'u nodi, ac mae'r AALl yn bwriadu gwneud y rhain yn ganolbwynt i gyrsiau hyfforddiant mewn swydd.

5.6 Sut y gellid gwella asesu gan athrawon –barn AALlau

5.6.1 Mynegodd nifer o AALlau y farn y byddai angen cyfres o fesurau yn y dyfodol i gynnal ansawdd asesiadau athrawon mewn ysgolion. Teimlent y byddai hyn yn angenrheidiol, nid y lleiaf i gynnal cadernid a chysondeb data asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol i ddarparu sylfaen gadarn at ddibenion cymharol, mesurau â gwerth ychwanegol a phrosesau gosod targedau.

5.6.2 Dyma rai o'r awgrymiadau a wnaed ar gyfer gwella:

- dylid sicrhau bod arian ychwanegol ar gael trwy GCAH ar gyfer mwy o hyfforddiant a chynhaliaeth reolaidd ar gyfer asesu;

- dylid rhestru gweithgareddau safoni yn fanwl yn y rhaglen GCAH a rhoi digon o arian ar eu cyfer i gynnal system effeithiol a fydd yn sicrhau bod gwaith disgyblion yn cael ei lefelu'n gywir. Mae AALlau yn cydnabod bod athrawon yn elwa ar drafodaethau ansawdd da yn seiliedig ar ofynion asesiadau athrawon;

- roedd angen prosesau sicrhau ansawdd cadarn, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion a sgyrsiau proffesiynol ag athrawon am waith disgyblion a'r lefelau a ddyfernir. Nododd yr AALlau y gwnaed arolwg ohonynt, heb allu ymweld ag ysgolion a samplo asesiadau, ni fyddent yn gwybod pa mor gywir a chyson yw asesiadau athrawon. Cyfeiriasant ymhellach at y ffaith y byddai angen i'r prosesau hyn ystyried materion yn ymwneud â'r baich biwrocrataidd; a

- dylai ACCAC roi cynhaliaeth bellach i athrawon ar ffurf deunyddiau enghreifftio, gan gynnwys deunyddiau ar y we.

6. Defnyddio deunyddiau i gefnogi asesu

6.1 Mae gan ACCAC rôl ganolog wrth gefnogi asesiadau athrawon cywir a chyson yng nghyfnod allweddol 1. Roedd pob ysgol y gwnaed arolwg ohoni yn defnyddio denyddiau ACCAC mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i gefnogi'r barnau yr oeddent yn eu llunio am gynnydd disgyblion yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

6.2 Yn aml, caiff dewis ysgolion o ddeunyddiau ei ddylanwadu gan wybodaeth a geir yn ystod sesiynau hyfforddiant mewn swydd, gan AALlau, yn ystod cyfarfodydd penaethiaid ac o ymweliadau ymgynghorwyr â'r ysgolion.

6.3 Ers dileu'r tasgau a'r profion yng nghyfnod allweddol 1, mae ysgolion wedi gwneud defnydd cynyddol o ddeunyddiau gan ACCAC i gefnogi asesiadau athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- tasgau a phrofion blaenorol – mae'r rhain yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau a oedd yn cael eu defnyddio'n flaenorol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Caiff y rhain eu defnyddio'n weddol helaeth mewn ysgolion. Fe'u defnyddir naill ai ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn y ffordd y cafodd tasgau a phrofion eu cynllunio'n wreiddiol neu cânt eu hymgorffori yn y broses addysgu a dysgu a'u defnyddio trwy gydol y cyfnod allweddol i gydweddu ag asesu agwedd benodol ar y gwaith;

- deunyddiau asesu dewisol (DADau) – yn 2003, cyhoeddodd ACACC DADau mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Datblygwyd y rhain i gefnogi asesiadau athrawon parhaus a helpu rhoi mwy o gysondeb mewn barnau ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mae mwyafrif yr ysgolion yn ymwybodol o DADau ac maent yn eu defnyddio, gan eu bod yn ystyried bod y deunyddiau hyn yn eu cyfeirio'n well at lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwneir mwy o ddefnydd o DADau mewn rhai ysgolion nag eraill ac mae hyn yn adlewyrchu dylanwad yr AALl, gan fod rhai yn fwy nag eraill yn argymell eu defnyddio; a

- deunyddiau enghreifftio – lluniwyd yn ddiweddarach yn y 1990au mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Defnyddiwyd y rhain yn helaeth mewn ysgolion i gefnogi barnau a luniwyd gan athrawon. Mae'r deunyddiau yn cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion y dyfarnwyd lefelau ar eu cyfer. Mae'r nodiadau sydd wedi'u cynnwys yn y testun yn egluro pam y dyfarnwyd lefel benodol a'r prif feini prawf y mae'r gwaith yn ei ddangos. Mae nifer o ysgolion wedi defnyddio'r deunyddiau enghreifftio mewn sesiynau safoni ac ar gyfer hyfforddiant mewn swydd mewn ysgolion. Yn anffodus, mae'r deunyddiau hyn allan o brint bellach.

6.4 **Ffynonellau deunyddiau eraill** – defnyddir amrywiaeth o ddeunyddiau eraill mewn ysgolion hefyd i gefnogi gweithgareddau asesiadau athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deunydd asesu masnachol – mae cwmnïau cyhoeddi wedi datblygu deunyddiau asesu, fel arfer ynghlwm i'r cynlluniau gwaith a gyhoeddwyd yn y meysydd pynciau craidd. Mae ysgolion yn dewis defnyddio rhai ond nid rhai eraill;

- deunyddiau AALl – caiff ysgolion mewn rhai ardaloedd eu cefnogi'n dda gan wasanaethau AALl. Mae rhai AALlau yn cynhyrchu deunyddiau defnyddiol iawn ar gyfer asesu, ond ychydig iawn sy'n cynhyrchu unrhyw ddeunyddiau yn benodol ar gyfer cyfnod allweddol 1. O gofio hyn, mae mwyafrif yr AALlau yn argymell y dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau ACCAC;

- Mae'r Awdurdod Cymwysterau ac Asesu yn Lloegr (QCA) yn cynhyrchu deunyddiau. Mae ysgolion yn ymwybodol o'r rhain ac yn eu defnyddio o bryd i'w gilydd;

- Profion wedi'u safoni – mae bron pob ysgol bellach yn defnyddio profion wedi'u safoni mewn Saesneg a mathemateg ryw bryd yn yr ysgol fabanod. Defnyddir y rhain at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:

    - nodi anghenion dysgu disgyblion;

    - cadarnhau lefelau asesu athrawon; a

    - darparu data ysgol ar Saesneg a mathemateg i'r AALl.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r profion hyn yn bennaf i gadarnhau eu hasesiadau athrawon gan fod y profion yn aml yn honni y gall canlyniadau sgôr gyfateb â lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac y gallant felly gael eu defnyddio i gadarnhau barnau. Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r profion hyn ym mlwyddyn 1 ar gyfer gosod targedau. Mae nifer o AALlau yn annog eu hysgolion yn gryf i ddefnyddio profion wedi'u safoni, yn benodol mewn Saesneg a mathemateg, i lywio safonau ar draws yr AALlau ac i ysgolion allu mesur cynnydd eu disgyblion; a

- Phrofion darllen – mae ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o brofion darllen. Ar y cyfan, caiff dewis y profion ei benderfynu gan bolisïau'r AALl a'r gofynion sy'n cael eu gosod gan yr AALl i gasglu gwybodaeth am sgorau darllen a gallu darllen ar draws eu hysgolion.